

Cyngor Tref Llandeilo Fawr **Llandeilo Fawr Town Council**



Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 22^{ain} o Fawrth 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Colin Jenkins, y Dirprwy Faer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Richard Wallace
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Carol Watts, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Owen James, y Cyng. Gordon Kilby, y Cynghorydd Sir Edward Thomas

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, rhoddodd Mr Ian Thomas, cynrychiolydd o elusen Cariad, gyflwyniad ar werth bod â diffibrilwyr yn y Gymuned i wella cyfraddau gwella pobl sy'n dioddef ataliad ar y galon. Cost amcanol gosod un o'r rhain mewn lleoliad addas ar y brif stryd fyddai £1,200-£1,400.

Gofynnodd y Maer i bawb sefyll ar gyfer munud o dawelwch er cof am y rhai a fu farw yn yr ymosodiad terfysgol yn Westminster.

Datganiadau o Fuddiant. Dim

Materion yn ymwneud â'r Heddlu.

Dywedodd y SCCH Louise Lewis bod yr Heddlu wedi parhau i fynychu achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc yn yr Orsaf Drenau. Roedd y rhain yn cynnwys pobl ifanc o ardaloedd cyfagos. Cafwyd achos o fandaliaeth yn y Parc Busnes.

Dywedodd y SCCH Lewis bod yna bryder cynyddol am nifer y cŵn sy'n baeddu, a gofynnodd am i unrhyw un sy'n dyst i hyn i'w reportio i Swyddogion Gorfodi CSG, a all roi cosb benodol i'r perchennog.

Roedd yr Heddlu'n poeni ynghylch penderfyniad SWTRA i ganiatáu paentio drychiad blaen y caffi ar Stryd Rhosmaen ar un o ddyddiau'r wythnos, a fydd yn achosi mwy o dagfeydd traffig.

Cof 320 / Maw / 17 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y Cyfarfod. Nodwyd y pwyntiau canlynol:-

Roedd trafodaethau'n parhau rhwng yr ysgolion, y Ganolfan Addysg i Oedolion ac Adran Prifffyrdd CSG, i ddatrys y broblem o gael cerbydau'r rhieni'n gyrru i mewn i dir yr ysgolion. Byddai'r ganolfan ailgylchu yn Llangadog yn cau ar ddiwedd mis Mawrth.

Roedd y Bwi wedi cael ei ddychwelyd i'w leoliad yng nghanol cylchfan yr A40.

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth oddi wrth Dawnus mewn perthynas â'u prosiect i ddatblygu Neuadd yr Hen Farchnad.

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn ysgrifennu i geisio eglurhad gan Dawnus, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies.

Byddai angen gofyn i'r Cyng. Thomas i ofyn i CSG pwy sy'n berchen ar Fanc Midland Llandeilo.

Cof 321 / Maw / 17 Cofnodion Blaenorol.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 22^{ain} o Chwefror 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Cynigwyd gan y Cyng. Rebecca Butcher ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 8^{fed} o Fawrth 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Cynigwyd gan y Cyng. Julia Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 8^{fed} o Fawrth 2017, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.

Cynigwyd gan y Cyng. Rebecca Butcher ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 8^{fed} o Fawrth, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Cynigwyd gan y Cyng. Rebecca Butcher ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 322 / Maw / 17 Doedd dim Materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol

Cof 323 / Maw / 17 Doedd dim Gohebiaeth yn galw am ymateb

Cof 324 / Maw / 17 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Edward Friend - Adroddiad ar y trafodaethau Trosglwyddo Asedau gyda CSG. Dywedodd ei fod yn hapus gyda'r brydles a ddarparwyd gan CSG ar gyfer Parc Penlan. Esboniodd y Maer bod gofyn arwyddo'r brydles erbyn yr 31^{ain} o Fawrth, er mwyn cydymffurfio â'r cytundeb gyda CSG, i gaffael y cymhellion ychwanegol a gynigwyd h.y. grant mwy tuag at gynnal a chadw'r parciau. Dywedodd Mr Friend ei fod yn argymhell bod y Cyngor yn arwyddo trwydded ar gyfer Parc Le Conquet, nes bod CSG wedi derbyn cadarnhad gan y Comisiynwyr Elusennau, cyn cymryd cyfrifoldeb llawn am y parc hwn. Cynigodd y Maer bod adroddiad Mr Friend a'r argymhellion i arwyddo'r brydles ar gyfer Parc Penlan a'r drwydded ar gyfer Parc Le Conquet yn cael eu derbyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies. Cafodd y cynnig ei gario gan 6 phleidlais o blaid ac fe wnaeth 1 ymatal.
2. Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Adolygiad o Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2018. Nodwyd.

Cof 325 / Maw / 17 Materion Ariannol

1. Cyfrifon i'w talu.

	Net	TAW	Cyfanswm
Terry Davies (DD546)(DD575)(DD590)	£ 485.00	£ 97.00	£ 582.00
Terry Davies (DD 595) (pibau plastig)	£ 129.00	£ 25.92	£ 155.52
Morgan & Morgan (inc i'r argraffydd)	£ 8.35	£ 1.67	£ 10.02
Tâl post y Clerc	£ 14.28		£ 14.28

du – debyd uniongyrchol # - siec * bacs.

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

Cof 326 / Maw / 17 Materion Ariannol Eraill

Ceisiadau am Gymorth Ariannol.

1. Gŵyl Jas Llandeilo 2017.
Gofynnwyd i'r Clerc i ofyn am fantolen digwyddiad 2016, cyn y bydd ystyriaeth yn cael ei roddi i'r cais hwn.
2. Gofal Galar Cruse.
Cynigodd y Cyng. Richard Wallace rodd o £100, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies.
Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace ddiwygiad o £200, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Julia Jones.
Cafodd y cynnig ei gario gan 4 pleidlais i 3 phleidlais.
3. Bobath Cymru
Cynigodd y Cyng. Julia Jones rodd o £50, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
4. Lloffwr. Fe wnaeth y Cyng. Eifion Davies ddatgan buddiant ac fe arwyddodd y Llyfr Datganiadau o Fuddiant. Oherwydd na chafodd unrhyw gyfrifon eu cyflwyno, nid oedd modd rhoi ystyriaeth i'r cais.
5. Eglwys Sant Teilo.
Cais am gymorth gyda chostau cynnal a chadw'r fynwent. Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace bod y swm a gyllidwyd, sef £1,000, yn cael ei roddi. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

Cof 327 / Maw / 17 Trawsgludiaeth a Phriffyrdd.

Roedd y Swyddog Technegol wedi dosbarthu adroddiad ar fandaliaeth yn yr Orsaf Drenau, a oedd yn parhau i fod yn lleoliad ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddai'r mater yn cael ei drafod yng Nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn, lle byddai Uwch Swyddog Heddlu yn bresennol.

Cof 328 / Maw /17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd adroddiad Mr Davies wedi cael ei ddsbarthu ymlaen llaw. Fe wnaeth gadarnhau enw deiliad y fflat yn 99 Stryd Rhosmaen, ac fe fyddai'n anfon ato'r £20 a gynigwyd i'r rheiny a ddarparodd drydan ar gyfer y goleuadau Nadolig.
Cynigodd y Cyng. Julia Jones bod y Cyngor yn derbyn yr amcan bris o £100 gan Hugh Gwynne i glirio'r sbwriel o Ardd Heol Cilgant, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace.
Dywedodd Mr Davies bod trigolyn lleol wedi dangos diddordeb mewn prynu'r ardd.
Gofynnwyd i Mr Davies i ofyn i'r person i ysgrifennu at y Cyngor. Cafwyd cais i osod y gyllideb ar gyfer goleuadau Nadolig yn y dyfodol ar Agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid.

Cof 329 / Maw /17 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer adroddiad ar yr achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor.

24^{ain} o Chwefror Mynychu ymweliad y Tywysog Charles i Dŷ Newton. Mynychu Cinio Gŵyl Ddewi'r Rotari.

25^{ain} o Chwefror Gorymdaith Gŵyl Ddewi CSG yng Nghaerfyrddin.

26^{ain} o Chwefror Cyngerdd Dathlu Gŵyl Ddewi'r Cyngor Tref yng Nghapel Newydd.

27^{ain} o Chwefror Mynychu Noson Gomedï, a drefnwyd i ddathlu Gŵyl Ddewi.

- Mawrth y 1^{af} Agor Cystadleuaeth Ffotograffiaeth a chyflwyno enillydd cystadleuaeth ffotograffiaeth yr ysgolion.
- 4^{ydd} o Fawrth Mynychu Ffair Fwyd, a drefnwyd i ddathlu Gŵyl Ddewi.
- 5^{ed} o Fawrth Gwasanaeth Cyd-enwadol yng Nghapel Ebenezer.
- 15^{fed} o Fawrth Agor y Llyfrgell newydd yn swyddfeydd CSG.

Cof 330 / Maw / 17 Adroddiadau Eraill

1. Dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Adroddodd y Cyng. Robert Jones bod y digwyddiadau wedi gwneud elw o £449.88. Gofynnodd i'r Cyngor i glustnodi cyllideb i ddiogelu'r digwyddiadau ar gyfer y dyfodol. Byddai'r mater yn cael ei osod ar Agenda'r CCB Ailddechreuedig. Dywedodd y Cyng. Jones bod swm o £226 wedi cael ei gasglu i'r teulu o Syria, o ganlyniad i gasgliad yn y gwasanaeth cyd-enwadol.

Cof 331 / Maw / 16 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35yh.